## Cyfraniad unigryw Evan Roberts, y Diwygiwr

Rhaid cydnabod cyfraniad arbennig iawn Evan Roberts yn Niwygiad 1904–05. Ymserchodd ym mhobl Cymru a Chymry Lerpwl, a daliodd o flaen llygaid y tyrfaoedd yr arwyddair a fathwyd ar eu cyfer ym mhentref Nant-y-Moel ar ddechrau'r Diwygiad grymus: 'Cofia'r Gwaed'. Cyhoeddwyd detholiad o emynau a thonau ar gyfer ei ymgyrch ym Môn ym mis Ebrill 1905, emynau o waith Evan Rees (Dyfed), J. T. Job ac R. D. Rowlands (Anthropos), a'r tonau o waith y Parchedig R. O. Williams, Porth, Amlwch. Un o'r emynau mwyaf perthnasol yw emyn Dyfed, 'Cofio'r Gwaed'.

'Ni gofiwn y gwaed
A'r cymod a gaed
I godi pechadur
Am byth ar ei draed;
Er gormod o loes
A dirmyg yr oes,
Mae'r nef yn y golwg
Yn ymyl y Groes.

Ni gofiwn yr Oen
A drodd yn ei boen
Yr anial a'i fywyd
Yn wynfyd a hoen;
Mae'r ffordd ar ei hyd
Yn gariad i gyd,
A bywyd yn olau
Ar feddau y byd.

Ni gofiwn yr Iawn
A dalwyd yn llawn,
A chanu yn wyneb
Cyfiawnder a wnawn.
Ni dderfydd ein llef
O fawl iddo Ef,
Yn wynion ein gynau
Yng nghanol y nef.'

Haf bach Mihangel fu'r cyfan. Cyn diwedd 1905 ciliodd Evan Roberts o'r maes. Bu hyn yn siom i lawer un, ond nid oedd yn syndod o gwbl. Ysigwyd ei iechyd a'i gorff gan straen annerch a theithio a chyfathrebu a chymdeithasu. Ond cofiwn eiriau'r newyddiadurwr craff, E. Morgan Humphreys, a gyfareddwyd yn llwyr gan y Diwygiwr; 'Siaradwr tawel oedd, ei eiriau a'i ynganiad yn glir, ei ysbryd yn gariadus a'i feddwl yn drefnus.' Compliment ardderchog i'r gŵr da a duwiol.

***D. Ben Rees***